

Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid

rhoi plant a phobl ifanc yn gyntaf

Taflen wybodaeth

Beth ye Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid yr NSPCC?

Diben y Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid yw llywio, cyfarwyddo a dylanwadu ar yr NSPCC ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn y DU.

Mae'r bwrdd yn cynnwys 15 o bobl ifanc, rhwng 13 ac 16 oed, o bob cwr o'r DU. Byddan nhw'n cwrdd yn rheolaidd rhwng mis Ionawr 2021 a mis Ionawr 2023.

Gall unrhyw un wneud cais – rydym am lawer o wahanol bobl ifanc fod yn rhan o'r bwrdd. Does dim angen iddyn nhw gael profiad blaenorol o gymryd rhan mewn grŵp cynghori, nac o wirfoddoli gyda'r NSPCC. Byddan nhw'n cael llawer o gefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant fel eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn hapus i gymryd rhan.



NSPCC

**MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO
EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR**

Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid

Mae angen pobl ifanc arnom ni sydd:

- rhwng 13 a 16 oed.
- â diddordeb mewn gwella bywydau plant a phobl ifanc.
- yn barod i wrando ar eraill a pharchu eu barn.
- yn fodlon gweithio gydag eraill a grwpiau lleol.
- yn fodlon gwneud eu gorau glas i gyfrannu at y bwrdd.
- yn gallu dod i bob cyfarfod a gweithdy (bydd y dyddiadau'n cael eu rhannu ymlaen llaw).

Beth fydd pobl ifanc yn ei gael o wneud hyn?

Fel aelod o Fwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid yr NSPCC, byddan nhw'n cael teithio ledled y wlad i gymryd rhan mewn digwyddiadau preswyl, cyfarfodydd, ymgynghoriadau a gweithdai. Bydd eu barn yn cael eu clywed drwy siarad â phobl ifanc eraill, ymddiriedolwyr yr NSPCC, staff, gwleidyddion a phobl sy'n gwneud penderfyniadau. Byddan nhw'n cael eu hyfforddi a'u cefnogi i gael barn plant a phobl ifanc eraill, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Ac yn bwysicach na dim, byddan nhw'n cael cwrdd â llawer o bobl ifanc eraill a chael llawer o hwyl.

Beth mae'n rhaid iddyn nhw gytuno i'w wneud?

- Mynd i bob cyfarfod ar-lein ac wyneb yn wyneb yn rheolaidd (gan gynnwys hyd at dri digwyddiad preswyl dros benwythnos neu hanner tymor bob blwyddyn).
- Manteisio ar bob cyfle i gynghori'r NSPCC ar y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.
- Dweud wrth yr NSPCC eu barn am yr hyn mae'r mudiad yn ei wneud, a beth gallen nhw fod yn ei wneud yn well i blant a phobl ifanc.
- Casglu barn plant a phobl ifanc eraill ledled y DU am y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ei hangen a'i heisiau arny'n nhw a'u teuluoedd/gofalwyr.
- Cwrdd fel grwpiau pwnic a grwpiau rhanbarthol llai. Bydd y digwyddiadau hyn yn cynnwys gweithio gyda'n tîm ymgyrchoedd lleol a rhanbarthol, yn ogystal â chwrdd â phobl ifanc eraill sydd ddim ar y bwrdd a gofyn am eu barn am feysydd gwaith y bwrdd.

Faint fydd hyn yn ei gostio?

Bydd yr NSPCC yn talu costau teithio, llety a threuliau rhesymol ar gyfer cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd yr hyn y byddwn yn ei dalu yn cael ei rannu â chi cyn dod i gyfarfod.

Amddiffyn plant:

Mae'r NSPCC wedi ymrwymo i amddiffyn plant a phobl ifanc, ac i greu diwylliant gwaith lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi a'u diogelu. Mae gan yr NSPCC bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant ac mae disgwyl i'r holl staff weithio tuag atynt. Er mwyn creu amgylchedd diogel i blant a staff lle mae arferion gwael yn cael eu herio, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Mae'r holl staff yn cael eu harchwilio gan yr heddlu, ac mae geiradau yn cael eu defnyddio i wneud yn siŵr bod staff yn addas.
- Mae'r holl staff yn cael eu goruchwyllo a'u cefnogi yn eu gwaith.
- Mae'r holl staff yn gweithio gan ddilyn gweithdrefnau amddiffyn plant yr NSPCC, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr angen.
- Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ar lefel sy'n briodol i'w sefyllfa waith.
- Gall yr holl staff fynegi pryderon am ymarfer gwael neu beryglus drwy weithdrefnau amddiffyn plant a pholisi chwythu'r chwiban yr NSPCC.
- Mae asesiad risg llawn yn cael ei wneud ar gyfer ein holl ddigwyddiadau.
- Rydym ni'n gofyn am fanylion yswiriant unrhyw leoliadau allanol rydym ni'n eu defnyddio, ac yn gwirio'r manylion hynny.

Y camau nesaf a rhagor o wybodaeth:

Llenwch ffurflen gais erbyn 11 Ionawr 2021

Gwybodaeth am y Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid

nspcc.org.uk/boardforchange

Os oes gennych chi ragor o gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Zazie Clarke yn participationteam@nspcc.org.uk